



Ysgol Pentreuchaf

111. Polisi Medrau Allweddol (a'r Gofynion Cyffredin)

Nod

Mae'n bwysig fod cynnydd disgyblion yn y Medrau Allweddol yn cael sylw priodol. Cyfranna hyfedredd disgyblion mewn medrau allweddol yn briodol at gyflawniad safonau da mewn ystod eang o bynciau ac agweddau ar ddygysgu.

Canllawiau

1. Sicrhau fod y Medrau Allweddol wedi eu cynllunio'n ofalus a bwriadus.
2. Cofio ei bod yn bosibl cynnwys Medrau Allweddol mewn meysydd lle nad ydi'r cyfleoedd mor amlwg e.e. Addysg Gorfforol ac ABaCh.
3. Talu sylw priodol i'r meysydd a'r amcanion canlynol:

i) Sgiliau Cyfathrebu

Datblygu a chymhwyso sgiliau siarad, gwranddo, darllen, ysgrifennu a mynegi syniadau trwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau **Siarad** yn glir a chlywadwy, gan addasu eu lleferydd i ystod o amgylchiadau a gofynion, datblygu'r gallu i adrodd stori, esbonio, disgrifio, damcaniaethu, dadansoddi, mynegi barn, cymharu, holi a dod i gasgliad

Gwranddo ar eraill ac ymateb yn briodol i'r hyn a ddywedant

Darllen yn gywir, gyda mynegiant a dealltwriaeth o amrywiaeth o ffynonellau, defnyddio llyfrau a thestunau eraill yn fedrus i ymchwilio, archwilio ac astudio, darllen yn eang ac yn gwerthfawrogi darllen fel ffynhonnell gwybodaeth a phleser, darllen yn uchel, deall y cynnwys, ymateb i'r testun a dewis deunydd i'w ddarllen yn annibynnol **Ysgrifennu** yn gydlynol, yn rhugl ac yn gywir ar gyfer ystod sy'n ehangu o ddibenion, ymdrin yn llwyddiannus ag ystod gynyddol a phriodol o waith ysgrifenedig, defnyddio'r broses ysgrifennu fel cyfrwng i wella dealltwriaeth, cynllunio, datblygu ac ailysgrifennu eu testun eu hunain ble y bo'n briodol, cyflawni ystod o ffurfiau e.e. cerdyn post, llythyr, deialog, dyddiadur, stori neu adroddiad.

ii) Sgiliau Mathemategol

Data rhifyddol ac ystadegol

Defnyddio, cymhwyso a dehongli data rhifyddol ac ystadegol a gyflwynir mewn amrywiaeth o ffurfiau

Dethol data rhifol ac ystadegol a gyflwynir ar amrywiaeth o ffurfiau

Dethol technegau priodol i gynrychioli data

Ymdrin â rhifau yn rhugl, yn y pen, ar lafar ac yn ysgrifenedig

Defnyddio patrymau o fewn rhif wrth gyfrifo a brasamcangyfrif

Mesur a chyfrifo yn gywir, ac amcangyfrif yn rhesymol, gan ddefnyddio unedau priodol o amser, hyd, arwynebedd, cyfaint, mas, cynhwysedd, ongl a mesurau cyfansawdd cysylltiol

Defnyddio cyfrifianellau yn gywir ac yn briodol.

iii) Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Datblygu a chymhwyso sgiliau TGCh i ddod o hyd i wybodaeth, ei pharatoi, ei phrosesu a'i chyflwyno, ac i drosglwyddo syniadau yn fwyfwy annibynnol.

Defnyddio ystod o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu at amrywiol ddibenion

Pob disgybl yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth.

Dadansoddi, prosesu a chyflwyno gwybodaeth, a modelu, mesur a rheoli digwyddiadau

Creu testun, tablau, graffiau, lluniau a sain – bwydo, golygu ac addasu testun, bwydo, storio, adfer, prosesu ac arddangos gwybodaeth, creu testun ac addasu cyfarwyddiadau rheoli

4. Cynnwys y Gofynion Cyffredin hefyd ble bo'n bosibl -

i) Y Cwricwlwm Cymreig – gweler y polisi

ii) Sgiliau Datrys Problemau – datblygu a chymhwyso sgiliau o ran gofyn cwestiynau, rhagfynegi a gwneud penderfyniadau gwybodus – gweler y polisi Medrau Meddwl

iii) Sgiliau Creadigol – datblygu a chymhwyso sgiliau creadigol, yn enwedig datblygu a mynegi syniadau a dychymyg

iv) Addysg Bersonol a Chymdeithasol – gweler y polisi

Casgliad

Sicrhau bod y Medrau Allweddol yn cael eu bwydo i mewn i'r cynlluniau ac yn cael eu gweithredu'n gyson o ddydd i ddydd.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____